

Cyngor Cymuned Mæchell Community Council

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD NÔS LUN 12/5/2014
MINUTES OF THE MEETING HELD ON MONDAY EVENING 12/5/2014

Presennol / Present

Mrs H Mary Hughes (Cadeirydd / Chair)
Mr Tony Jones (Is-Gadeirydd / Vice Chair)
Cyng. / Cllr. John Griffith
Cyng. / Cllr. Ken Hughes
Cyng. / Cllr. Llinos Medi Huws
Mrs Elaine Rowlands
Mr Adrian Parry
Mr Jac Jones
Mrs Menna Owen
Mr Owen Mostyn Williams
Mrs Helen Mai Beck (Clerc / Clerk)

1. Croesawu / Welcome

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Hoffai'r Cynghorwyr longyfarch Mrs Elin Wynne ar enedigaeth ei phlentyn.

The Chair welcomed everyone to the meeting. The Councillors wanted to congratulate Mrs Elin Wynne on the birth of her child.

2. Ymddiheuriadau / Apologies

Derbynwyd ymddiheuriadau gan Mrs Elin Wynne a Mrs Dawn Griffith-Jones
Apologies were received from Mrs Elin Wynne a Mrs Dawn Griffith-Jones.

3. Cofnodion / Minutes

Derbynwyd cofnodion cyfarfod 14/4/2014 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Mr Jac Jones ac eilwyd gan Mr Adrian Parry.

The minutes were accepted as a true record of the meeting on 14/4/2014. Mr Jac Jones proposed and Mr Adrian Parry seconded.

5. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

- Cyflwyniad gan Mr Richard Foxhall – ail drefnu dyddiad arall.
Gweithred – Mr Jac Jones i gysylltu â Mr Richard Foxhall.
Presentation by Mr Richard Foxhall – re arrange another date.
Action – Mr Jac Jones to contact Mr Richard Foxhall.
- Scottish Power – Dim ymateb hyd yn hyn i'r llythyr a yrrwyd.
Gweithred – Y Cadeirydd i gysylltu â Scottish Power.
Scottish Power – No response to the letter sent.
Action – The Chair to contact Scottish Power.
- Gwefan y Cyngor Cymuned – Materion mewn llaw.
Community Council website – Matters in hand.
- Cloc y pentref – Dim diweddariad.
Village clock – No update.

- ROSPA – Angen cyfarfod a ROSPA pan maent yn dod i archwilio y parciau. Archwiliad yn mis Mehefin 2014.
ROSPA – Need to meet with ROSPA when they come to inspect the parks. Inspection due in June 2014.
- Siop y Pentref – Materion mewn llaw gyda gobaith cwblhau diwedd mis Mai 2014.
Village Shop – Matters in hand with the hope of completion at the end of May 2014.

5. Ffyrdd / Highways

- Derbynwyd cŵyn am lôn Penrhyn Bach, Carreglefn ac y lôn yn dod i fewn I Garreglefn o gyfeiriad Rhosgoch.
A complaint was received regarding Penrhyn Bach Road, Carreglefn and the road coming into Carreglefn from the Rhosgoch direction.
- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn a ‘Gorchymyn i gau llwybr troed dros dro, rhan o llwybr rhif 34A Cymuned Mechell 2014’.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council regarding ‘Temporary footpath closure, part of footpath No 34A Mechell Community Order 2014’.

6. Gohebiaethau / Correspondence

- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru ynglyn a ‘Wythnos Glanhau Arfordir 2014’.
An email was received from One Voice Wales regarding ‘Clean Coasts Week 2014’.
- Derbynwyd ebôst gan Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn ag ‘Asesiad Anghenion Lleol’ ynglyn a cartrefi’r henoed a tai gofal. Ategodd y Cynghorwyr Sirol ei fod yn bwysig i bawb gwblhau yr holiadur fel unigolion a bod hyn yn fater pwysig.
An email was received the Isle of Anglesey County Council regarding ‘Local Assessment Needs’ regarding older elderly houses and care homes. The County Councillors emphasized the importance of completing the questionnaire as individuals, as it is an important matter.
- Derbynwyd ebôst gyda cylchlythyr Ebrill a Mai 2014 Rhun ap Iorwerth AC.
An email was received from Rhun ap Iorwerth AC with his April and May 2014 newsletter.
- Derbynwyd ebôst ynglyn a ‘Cynllun Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru - Nyth’.
An email was received regarding the ‘Welsh Government Fuel Poverty Scheme - Nest’.
- Derbynwyd ebôst gan Cyngor Gwynedd ynglyn a Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.
An email was received from Gwynedd County Council regarding the Gwynedd & Môn Joint Local Development Plan.
- Derbynwyd ebôst ynglyn a ‘Llywodraethau mewn Cyrff Cyhoeddus Bach’.
An email was received regarding ‘Governance in Small Public Bodies’.
- Derbynwyd ebôst ynglyn cwrs hyfforddi ‘Modiwl 10: Sgiliau Cadeirio’ yng Nghaernarfon ar y 21ain o Fai 2014.
An email was received regarding a training course ‘Module 10: Charing Skills’ in Caernarfon on the 21st May 2014..
- Derbynwyd ebôst ynglyn a swydd wag gan Comisiynydd Plant Cymru.
An email was received regarding a vacancy post for the Children’s Commissioner for Wales.
- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru yn hyrwyddo nifer o gyrsiau hyfforddi.
An email was received from One Voice Wales promoting numerous training courses.

- Derbynwyd ebôst ynglyn a 'Rhoi Gwybod i'r Cyhoedd Gweithdai Cyngorau Cymuned a Thref 2014'.
An email was received regarding 'Informing the Public Community and Town Council Workshops 2014'.
- Derbynwyd ebôst ynglyn a Newyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref.
An email was received regarding Local Government and Communities Community and Town Councils Welsh Government News.
- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru gyda Taflen Ymgynghoriaeth ar wasanaethau gwahanol e.e. Cyflogaeth.
An email was received from One Voice Wales with a Consultancy Leaflet on numerous services offered such as Employment.
- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Mon ynglyn a 'Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad I Aelodau Cyngor Tref a Chymuned'.
Gweithred – Y Clerc i adael y Cyngor Sir wybod pa dyddiad sydd yn gyfleus ar gyfer yr hyfforddiant.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council regarding 'Training on the Code of Conduct for Members of Town and Community Councils'.
Action – The Clerk to inform the County Council which dates are convenient to attend.
- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Mon ynglyn a 'Dadgomisiynu Gwasanaeth Camerau Goruchwyllo Cyngor Sir Ynys Mon'. Cafwyd trafodaeth brŵd gyda phawb yn cytuno bod hyn yn gamgymeriad mawr i'r Ynys.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council regarding 'Decommissioning of Isle of Anglesey County Council's CCTV Service'. A lively discussion followed with everyone in agreement that this was a big mistake for the Island.
- Derbynwyd 'Datganiad o'r Pleidiau a Enwebwyd a Rhybydd o Etholiad' gyda'r Etholiad Seneddol Ewropeaidd – Cymru.
The 'Statement of Parties Nominated and Notice of Poll' was received with regard to the European Parliamentary Elections.

7. Biliau / Bills

- Derbynwyd biliau gan / Bills were received from:
 - HMRC (TWE / PAYE) - **£93.60.**
 - Lês y Rhandiroedd / Allotments Lease - **£30.**
 - Shaw & Sons (Llyfr cofnodion / Minute book) - **£149.69.**
 - Mr West (Cydnabyddiaeth Cloc y Pentref / Acknowledgment of the Village Clock) - **£60.**
- Derbynwyd arian gan / Money was received from:
 - Beaufort Wind Limited (Arian Melinau Gwynt / Windmill Fund monies) - **£3234.65.**
 - CSYM (Taliad cyntaf 14/15 y presept / First payment of the 14/15 precept) - **£2572.50.**
- Derbynwyd llythyrau rhodd gan / Donation letters were received from:
 - Eisteddfod Môn Ynys Cybi 2014 - Cytunwyd i gyfrannu / It was agreed to contribute - **£50.**
 - Capel Bethlehem Chapel – Datganodd Mr Adrian Parry ddiddordeb yn yr eitem yma. Gofynnwyd am gyfraniad tuag at torri glaswellt ym mynwent y Capel. Trafodwyd a cytunwyd i gyfrannu hanner y gôst o'r Gronfa Melinau Gwynt / Mr Adrian Parry declared an interest in this item. A contribution was requested for the grass cutting at the chapel cemetery. This was discussed an agreed to contribute half the cost from the Windmill Fund – **£230.**

8. Cynllunio / Planning

- Datganodd y Cynghorydd Ken Hughes, y Cynhorydd John Griffith a'r Cynghorydd Cymuned Mr Owen Mostyn Williams ddiddordeb yn yr eitem yma a ni gymerodd rhan yn y drafodaeth.
Councillor Ken Hughes, Councillor John Griffith and Community Councillor Mr Owen Mostyn Williams declared an interest in this item and took no further part in the discussion.
- Meddanen, Llanfechell (38C305) – Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer cadw da fywyd a storio gwair. Dim sylwadau.
Meddanen, Llanfechell (38C305) – Full application for the erection of an agricultural shed for the housing of livestock and storing hay. No comments.

9. Unrhyw fater arall / Any other matters

- Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y benthyriad (12 mis) wedi cael ei drosglwyddo i Menter Mechell tuag at prynu siop y pentref - Siec £9,000.
The Chair confirmed that the loan (12 months) had been transferred to Menter Mechell for the purchase of the village shop - £9,000 cheque.
- Mynwent newydd Carreglefn – Derbynydd cŵyn ynglyn a glaswellt wedi ei adael dros y beddi.
Gweithred – Cysylltu â Mr Carwyn Jones.
New Carreglefn cemetery - A complaint was received regarding grass left on the gravestones.
Action – Contact Mr Carwyn Jones.
- Derbynydd cŵyn ynglyn a'r cerrig sydd wedi cael ei gadael yng Ngharreglefn gan gontractwr.
Gweithred – Y Cadeirydd i gysylltu a'r contractwr.
A complaint was received regarding stones left in Carreglefn by a contractor.
Action – The Chair to contact the contractor.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cyfarfod nesaf NOS LUN 9fed o Fehefin 2014 **7** o'r gloch yn Ysgol Carreglefn.
*Next meeting MONDAY 9th June 2014 at **7pm** in Carreglefn School.*

Arwyddwyd/Signed
Cadeirydd/Chairperson

Dyddiad/Date.....